Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
1 Rhagfyr 2018 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Dafydd Iwan, Emyr Williams, Math Williams, Geraint Strello, Peter Garlick, Wynn Roberts, Mirain Llwyd Owen

Cadeirio: Erddyn Davies

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

1. **YMDDIHEURIADAU**

Dim

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion Tachwedd 2018. Cynnig: Dafydd Iwan
Eilio: Mirain Llwyd Owen

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Clwb Ieuenctid Bontnewydd

Mae Cyngor Gwynedd wedi penodi dau berson lleol i fod yn gyfrifol am y Clwb Ieuenctid ym Montnewydd. Rhaid fydd cael gwiriadau DBS a thystlythyrau cyn eu penodi'n ffurfiol. Gobeithir medru cychwyn sesiynau'r Clwb Ieuenctid fel y gellir trafod ei lwyddiant ymhellach yng nghyfarfod mis Chwefror.

Bydd angen penderfynu yng nghyfarfod Ionawr os oes angen codi'r Praesept ar gyfer 2019/20 er mwyn ariannu'r Clwb Ieuenctid am flwyddyn, oherwydd ni fydd Cyngor Gwynedd yn ariannu'r Clwb Ieuenctid yn dilyn cyfnod cychwynnol.

4.2 Cerrig yn Afon Gwyrfai

Mynegwyd siom fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud na fyddant yn clirio'r cerrig o wely'r afon yn groes i'w haddewid yn y gorffennol. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru yn mynegi anfodlonrwydd at y newid polisi yma, ac i ofyn am gadarnhâd am y gwaith atal llifogydd y bwriedir ei wneud ym Montnewydd.

4.3 Safle Ail-gylchu Bontnewydd

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno y byddant yn cadw llygad rhag ofn y bydd sbwriel yn cael ei adael wedi i'r blychau ail gylchu gael eu tynnu o'r safle ail gylchu ym Montnewydd

4.4 Giat Lon Eifion

Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu trwsio'r giât sy'n arwain at Lon Eifion ym Montnewydd. Awgrymwyd y byddai bariau metal yn hytrach na giât yn hwylusach a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i weld a fyddai hyn yn bosibl.

4.5 Cadw Cymru'n Daclus

Cafwyd manylion pellach o'r grantiau posibl sydd ar gael gan Cadw Cymru'n Daclus. Erbyn y cyfarfod nesaf, gobeithir bod wedi casglu barn Age Cymru am gael rhandiroedd i'w mabwysiadau gan wahanol grwpiau ar eu tir yn eu Pencadlys ym Montnewydd.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Tachwedd 2018

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £253.18 y mis
Cyfanswm Net £211.58 y mis

5.2 Costau Postio Clerc £4.81

5.3 Balans yn y Banc 1 Rhagfyr 2018 £16,140.14.

6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Watkin Jones Cefnwerthwyd – Sylwadau cyn gwneud cais cynllunio

Cafwyd manylion cais cynllunio diwygiedig y bwriada cwmni Watkin Jones ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd yn fuan. Mae niferoedd y tai ychydig yn uwch a'r cymysgedd o dai ychydig yn wahanol
.
Gwnaethpwyd amrywiol sylwadau a'u danfon at Watkin Jones a Chyngor Gwynedd

Commented [HR1]:

- Pryder am y cynnydd mewn traffig
- Pryder y bydd y datblygiad yn cynyddu'r broblem llifogydd ym mhentref Bontnewydd
- Bod angen maes chwarae ar y darn tir agored sydd yn rhan o'r safle
- Bod angen cyfraniad gan y datblygwr tuag at yr ysgol oherwydd cynnydd yn nifer y disgyblion

7. GOHEBIAETH

- Twristiaeth yng Ngwynedd – Cylch yr Iaith
- Arolwg Toiledau Cyhoeddus yng Ngwynedd
- Pwyllgor Un Llais Cymru
- Cronfa Peilota Gwynedd

Derbyniwyd yr uchod er gwybodaeth.

8. MATERION ERAILL

8.1 Band Eang Ardal Arfon

Mynychodd y Cynghorydd Geriant Strello gyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan Sian Gwenllian A.C., oedd yn trafod argaeledd band-eang yn Arfon. Mae Superfast Cymru yn gobeithio y bydd gan y rhan fwyaf o eiddo yn Arfon gysylltiad band-eang cyflym o fewn tair blynedd.

O ran y darnau hynny sydd anoddaf i'w cysylltu gobeithir y bydd hi'n bosibl cynnig grantiau i unigolion fedru cyflawni'r gwasanaeth eu hunain.

8.2 Canlyniad Arolwg Trefniadau Etholaethol Gwynedd

Mae'r penderfyniad bellach wedi ei wneud gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i dynnu ward Caeathro o Gymuned Waunfawr ac ychwanegu ward Caeathro fel rhan o Gymuned Bontnewydd, gan gynyddu nifer yr etholwyr o 840 i 1053.

8.3 Cefnogi Eisteddfod yn Nhref Caernarfon 2021

Cafwyd llythyr gan Gyngor Tref Caernarfon yn gofyn am gefnogaeth i dref Caernarfon gynnal Eisteddfod 2021 yn nhref Caernarfon, fel ag y gwnaethpwyd yng Nghaerdydd eleni. Cytunwyd i hyn.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

7 Chwefror 2018 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd